**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Bryncrug a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Bryncrug, Nos Lun 15fed Mehefin 2015 am 7 o'r gloch,**

Presennol: Cadeirydd P E Parker, Is Gadeirydd Arwel Pierce, Ieu Thomas, A. H. Jones, . Beth Lawton, George Evans, R Evans, a'r clerc Eileen Jones,

1. Ymddiheuriad: Simon Jones

2. Datgan Diddordeb: R A Pierce yn gadael yr ystafell agenda rhif 12

3. **Croeshawodd** y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod.

4.**Derbyniwyd Cofnodion Mis Ebrill 2015 a'u llofnodi**

5. Cae Chwarae: Adroddiad Cyng Alan Jones – tiles yn cracio o flaen y Pafiliwn, Alan yn cynnig gwneud rhywbeth a nhw. Mae angen seddau i'r swings bach. Trefniant mewn lle i'r gwair gael ei dorri a'i gasglu cyn y Carnifal. Nodwyd bod angen tegell newydd, hefyd sylw i soced wrth y sinc. Pasiwyd i glirio y sied ym Mis Hydref. Diolchwyd i Cyng Lawton am drefnu yr offer Chwarae. Pasiwyd i dalu yr ail rhan. Pasiwyd i dalu am allos y bin ysbwriel.

6. Llwybrau: dim

7. Adroddiad Cyng B Lawton: Adroddodd ei bod mewn seminar ag mi oedd help ariannol gan Cyngor Gwynedd i dy a oedd yn wag am ddwy flynedd neu mwy. Nodwyd Glandwr – nid oedd cymdogion yn cwyno am hyn. Nodwyd y bydd bws yn dal i redeg i Ysgol Craig y Deryn gan fod y ffordd ddim yn saff i gerdded arno. Crime & Disorder Forum Tywyn a'r Ardal – nifer troseddau – isaf yng Ngwynedd. Nodwyd bod 7 o Heddlu i gyfro. Neb ychwanegol i gyfro salwch. Adeilad newydd i'r Heddlu ym Mhendref. Her Gwynedd 6ed o Orffennaf.

8. Taliad: Llogi y Ganolfan £12.00 am fis Mehefin – pasio yw dalu.

9. Toiledau Cyhoeddus: Fe dderbyniwn pris am eu cad war agor dros y Gaeaf ym Mis Medi. Mae modd drio am grant gan grwp Cynefin. Pasiwyd i wneud apêl at gadw y toiledau ar agor.

10. Gofal a chadw y Pentref: Angen sylw i'r bwrdd hysbys. Pasiwyd i dalu i Jones & Jones.

11.Cais Cynllunio.(1) Tir ger Gorsaf Brynglas – uwchraddio gwifren trydan 11Kv –wedi ei ganiatau. (2) Cais 31 Y Groesffordd wedi ei ganiatau.

12.Un Llais Cymru: Pasio i dalu am Cwrs module 6, Cyng Alan Jones a'r Clerc wedi mynychu. Cael llofnod i gael bursary at y cwrs. Pasio i dalu tâl blynyddol.

13. Polisi Iaith: Cafnodion mewn Cymraeg a Saesneg. Pwylgorau drwy'r Gymraeg ond defnyddio synwyr cyffredin os daw sais i'r cyfarfod., drwy disgresiwn y Cadeirydd.

14. Praescept £3,504.00 wedi ei dderbyn.

15. Apêl am arian: Trafodwyd apêl Dail Dysynni a phasiwyd i roi rhodd.

16. **Taliadau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| E Jones | ad daliad trydan | £30.00 | siec 101448 |
| Just Outdoor Toys | 2ail ran | 4202.25 | 449 |
| Cyngor Gwynedd | bin ysbwriel | 65.00 | 450 |
| Y Ganolfan | llogi | 12.00 | 451 |
| Jones & Jones | llwybrau a Graig | 243.00 | 452 |
| Un Llais Cymru | cwrs x 2 | 35.00 | 453 |
| Dail Dysynni | rhodd | 100.00 | 454 |
| Un Llais Cymru | ymuno | 101.00 | 455 |

**DOLGOCH:**

1. Pasiwyd i dalu i Jones & Jones am difrod y ddamwain yn y parc ceir a gwaith misol.

2. Pasiwyd i dalu i Metric cost blynyddol yn electronig, h.y. trwy lythyr i'r banc gyda dau llofnod.

3. Galwyd y Clerc at y P&D , rhaid oedd cael sylw peiriannydd, derbyniwyd gwybodaeth bod blychau yma wedi cael difrod garw, mor agos a Bala.  Pasiwyd i'r Clerc ei allos yn amlach am gyfnod.

4. Derbyniwyd £250.00 gan Banc Tesco ond nid oeddynt wedi cynnwys y TAW.

5. Derbyniwyd £1,000.00 – Initial Option fee payable by Richard Rees, drwy law Morris & Bates.

6. Nodwyd bod pren ochr sied yn rhydd eto.

7. Pasiwyd i archebu arwydd gyda bys yn dangos y ffordd i'r Rhaeadr / Falls – maint A4

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8. Taliadau: | Jones & Jones | llafur | £97.20 | siec 465 |
| | Jones & Jones | damwain parc ceir | 300.00 | 466 |

Ar ddiwedd y pwyllgor cyflwynodd y Clerc llythyr o ymddiswyddiad.